

Llysieulyfr Martha Jones

Yn ystod mis Gorffennaf 2010 derbyniodd Archifdy Meirionnydd ddogfen anghyffredin a thra diddorol o law boneddiges o Flaenau Ffestiniog. Tra'n tacluso cwpwrdd yn nhy ei chefnider, daeth Valmai Roberts, Heol Glynllifon ar draws blwch pren. Roedd ynddo lyfr ysgrifennu trwchus. Gorchuddiwyd y tudalennau rhwng ei gloriau ag ysgrifen *copr plêt* cain. Mesurai ddeg modfedd o hyd wrth wyth modfedd o led a thrwch o hanner modfedd. Ei gynnwys oedd traethawd ar lysiau meddyginiaethol, eu rhinweddau a manylion sut i'w paratoi.

Ganwyd yr awdures, Martha Jones yn Llangian, nid nepell o Abersoch ym Mhen Llŷn ar y 13 o Ebrill, 1855. Ymfudodd ei rhieni, Hugh ac Ellen Morris ac ymsefydlu ym Mlaenau Ffestiniog. Yn y cyfnod hwnnw roedd atyniad gwaith yn y chwareli yn denu llawer o bobl ledled Gogledd Cymru i'r dref. Wedi priodi John Griffith Jones, mab Griffith Jones, Tre'r Ddôl fe ymgartrefodd y pâr ifanc yn 18 Sgwâr y Parc yn y dref. Treuliodd y gweddill o'i hoes yn byw y drws nesaf i'w rhieni. Bu iddi hi a'i gŵr dair merch a deg o feibion.

Yr oedd enw Martha Jones yn dra chyfarwydd i drigolion bro Ffestiniog oherwydd ei medrusrwydd fel llysieuwraig. Arferai baratoi moddion, yn ffisig ac yn eli, i gleifion mewn oes nad oedd llawer o ddarpariaeth meddygol ar gyfer y werin-bobl yn y cyfnod. I rai na allent fforddio talu i feddyg yr unig ateb oedd troi at feddyg y plwyf ac yr oedd gwasanaeth a ddarperid ganddynt dan oruchwyliaeth gwarcheidwaid yr Undeb yn gyfyngedig ac yn aml o safon isel. Felly roedd gwragedd cyfarwydd yn chwarae rhan bwysig mewn



Martha Jones

gweini ar eu cymdogion, rhai fel bydwragedd, eraill fel llysieuwyr. Arferai Mrs Jones adael poteli o ffisig a blychau o eli ar fur yng nghefn ei chartref i'r chwarelwyr eu casglu ar eu taith i'r bone. Roedd hefyd yn uchel ei pharch fel gwraig '*oedd yn agos i'w lle*'. Ni ellir rhagori ar eiriau'r teyrnged iddi yn Y Rhedegydd, Ionawr 11, 1945:

Perthynnai i Martha Jones hynodion arbennig iawn, ac fel ei chyfenw yn yr efengyl derbyniodd i'w thy Geidwad y byd. Meddai stôr o gynghorion gwerthfawr a fu'n gysur i'w chydfforddolion, a phwy wŷr y golled, onid yw y rhai hyn wedi eu trysori ar gof a chadw.

Drwy graffter ei gor-wyres yn adnabod gwerth y llawysgrif mae'r dymuniad yn y deyrnged wedi'i gyflawni a'r wybodaeth wedi ei ddiogelu. Haedda'r llyfr astudiaeth am nifer o resymau, y pennaf efallai oedd ceisio darganfod ffynhonnell neu ffynonellau'r wybodaeth. Er ceisio darganfod patrwm arbennig cymharwyd y cynnwys a chynnwys deuddeg o llysieuwraig eraill, saith wedi'i cyhoeddi yn gynnar yn y 19^{eg} ganrif a chynt, a thri modern a gyhoeddwyd yn yr 20^{ed} ganrif. Ceir tri yn y Gymraeg, sef *Llyfr Dail Doctor David Thomas Jones*, Llanllyfni, *Y Llysieulyfr Teuluol* Edward Griffith, Abertawe a Rhys Price Cwmllynfell, a *Llysieuwraig Feddygol*, Thomas Parry Glangors, Tregarth yn boblogaidd. Ymhlith y cyfrolau Saesneg a ddewiswyd ceir *Grete Herbal*, John Gerarde (1597), *Herbal*, Nicholas Culpepper (1649) a *Family Herbal* Syr John Hill (1745). Yn ychwanegol, edrychwyd ar ddau glasur o ran olaf y 19^{eg} ganrif a dechrau'r 20^{fed}.

Cyhoeddwyd cyfrol swmpus Benjamin Martin a Thomas Castle, sef *British Flora Medica* yn 1877 a chyhoeddwyd campwaith William Fernie, sef *Herbal Simples* yn 1914. Mae Griffith a Price yn y rhagymadrodd i'w gwaith yn mynegi eu dyled i'r tri llyfr Saesneg a nodwyd, gan ychwanegu iddynt 'at hynny (gynnwys) lawer oddi ar sylw a gybodaeth brofiadol'.

Mae'r sylw hwn yn addas i waith Martha Jones oherwydd mae'n amlwg fod llawer o wybodaeth yn deillio o nifer o destunau. Mae ffrwyth profiad hefyd yn y testun a phwy a ŵyr nad oedd traddodiad llafar wedi chwarae ei ran. Un nodwedd llysieulyfrau'n gyffredinol yw fod yr awduron yn defnyddio llysieuyn penodol i drin anhwylderau pur wahanol i'w gilydd. Er hynny, y mae nifer o'r llyisiau adnabyddus yn cael eu defnyddio i'r un pwrpas.

Rhennir yr ysgrif yn ddwy ran, y cyntaf yn un dudalen ar ddeg o restr enwau Cymraeg a Saesneg, sef 289 o lysiau. Mae'r ail ran yn trafod rhinweddau 258 ohonynt. Manylir ar y man y maent yn tyfu, y rhan o'r planhigyn sydd i'w ddefnyddio, dail, blodau ac ati, a thymor eu blodeuo. Rhoddir cyfarwyddid sut i'w paratoi, rhai mewn brandi, eraill mewn eli. Fel ym mhob maes mae ymwybyddiaeth o ddiffygion yn ogystal a rhinweddau'n hanfodol. Mae Mrs Jones yn rhybuddio rhag defnyddio rhai o'r llyisiau er enghraifft: *y bele dir (ffa'r moch, hyosyamus* niger)* 'mae physigwyr yn ei arfer....ond mae yn enbyd iawn i neb arall...gan ei fod yn dra gwenwynig'.

Eto parthed cegid (*conium maculatum*) 'ond i'w i ymgymryd ag ef ond gan y cywrain yn unig, sef y physigwyr'. 'Doedd pabi coch yr yd (*papaver somniferum*) i'w gymryd 'ond gyda mawr ofal o law gywrain'. Ei gamddefnyddio i lawer un 'wrth ei gymryd a gysgodd heb ddeffro



Ffa'r moch (*Hyoscyamus niger*)

byth". Er i wragedd Rhufain ei ddefnyddio i brydferthu eu hunain, gwenwyn marwol yw y *gedowrach (atropa belladonna)*. Rhagnodwyd dau o'r llyisiau uchod gan feddygon hyd at saithdegau'r 20^{fed} ganrif.

Yn y drafodaeth ceir nifer o sylwadau trawiadol, a rhai geiriau Cymraeg anghyfarwydd. Ceir ambell i brociad i'r meddygon megis parthed yr *helygen wen (salix alba)* iddynt yn eu culni o feddwl: 'cadw'n ddirgel rhag i'r werin wybod ei rhinweddau'. Roedd potel ffisig y meddyg yn fwy poblogaidd na thabledi hyd at ail ran yr 20^{fed} ganrif. Un o'r rhai mwyaf poblogaidd oedd cymysgedd sodiwm salisylad at waew, boed yn codi o'r cymalau neu glwyf y bladur, lymbego, ac yn ei hanfod sylwedd yr helygen salicilin, oedd salisylad, Mae'n perthyn yn agos i asbirin a wnaeth gyfraniad amhrisiadwy i gysuro'r werin yn ei phoen. Mae cyfeiriad at yr arfer o ddarogan newid tywydd drwy archwilio'r *ysgallen wen (carlina aucasalis)*. Mae i'r llysieuyn hwn le arbennig mewn llên gwerin llyisiau. Yn ôl y traddodiad ymosododd pla ar fyddin yr ymherodr Siarl a darlunnir ef yn penlinio i weddio am gymorth. Daeth yr Archangel Gabriel i'w gynorthwyo ac anelodd ef saeth a laniodd ar blanhigyn wrth draed yr ymherodr, felly yn datguddio'r feddyginiaeth.

Un o bennaf werthoedd llyfr Martha Jones yw'r enwau Cymraeg a'r Saesneg. O'r dau gant pum deg ag wyth o lysiau nid yw'r term Cymraeg am gant a deuddeg ohonynt rhwng cloriau *Llyfr Dail* D. T. Jones nag yng nghyfrol Griffith a Price. Mae nifer fach ohonynt yng ngwaith Thomas Parry. Gellir olrhain rhai o'r enwau i *Eiriadur Cymraeg a Lladin* Thomas Wiliems, y clerigwr feddyg o Drefriw, a gyhoeddwyd 1604-07. Gresyn iddo gael ei ddwyn o flaen y llys am rybuddio'r hen Syr John Wynne i gadw i ffwrdd o'r Ty Cyffredin ar achlysur Brad y Powdr Gwyn! Cyfeiria E. Stanton

Roberts yn ei gyflwyniad i'w argraffiad o *Lysieulyfr William Salesbury* at gymwynas yr awdur yn bathu enwau Cymraeg i lysiau.

O ran diddordeb, edrychwyd am y termau yn y ddau eiriadur safonol modern. Nid oedd pymtheg wedi'i cynnwys yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru* ac roedd tri deg un ar goll o *Eiriadur yr Academi*. Dichon mai penderfyniad y geiriadurwr ysgolhaig o'r Blaenau a'i gydweithiwr oedd hepgor geiriau na ddefnyddir bellach sy'n gyfrifol am yr olaf.

Nid enwau'r llysiau yw'r unig ryfeddod ond mae nifer o dermau dieithr am glefydau yn y testun. Rydym yn gyfarwydd a llog eira (llawer ohonom yn llythrennol!) ond nid yw y gibwst yn taro cloch. Tybed pa nifer o'r darllenwyr sy'n dioddef o'r *fadronedd*, sef y bendro; yn dioddef o'r *gwyntglwyf*, sef y felan neu *disgyniad yr eisteddfod*, sef ymwithiad allan rhan isaf y rectwm drwy'r anws? Mae'r gair *rhesglen* am ganser yn y geg yn ddiddorol. Ymddengys fod y clwyf drwg, siffilis, wedi cyrraedd yr henwlad ac mae'r cyfeiriad ato fel clwyf gynffon yn awgrymiadol! I'r Saeson y *Frech Ffrenig* oedd ac mewn adwaith '*The English Disease*' oedd dewis y Ffrancwyr. Mewn gwirionedd daeth y clefyd yn gyntaf i'r Eidal gyda dychweliad llongwyr Christopher Columbus wedi darganfod America. Yn ei dro galwyd y clefyd hwn yn frech sawl gwlad.

Rhestrir amrediad eang o *Llyriad y môr* (gledydau i'w trin a llysiau gan y wraig ddiwylliedig hon. Yn gyfangwbl rhestrir saith deg chwech ohonynt gan gynnwys rhai pur anghyffredin, megis *brathiad ci cynddeiriog* (y gynddaredd) a '*chlwyf y cleddyf Bleddyn*', sef anhwylder y dduwg. Tybed a oes rhyw ddarllenwr gwybodus ag eglurhad am '*cleddyf Bleddyn*'? Argymhellir nifer o'r llysiau i drin rhai glefydau nad oedd triniaeth

feddygol iddynt yn y cyfnod hwnnw, rhai megis parlys, y frech wen, (a diystyru brechu i'w atal), y pla ac ati. Mae ynddo feddyglyn i lesmeirio pen tost hyd yn oed sy'n dilyn cyfathrach rhy agos a'r hen heiddyn.

Y ddau gyflwr a ymddangosodd amlaf o gryn nifer oedd y *cryd melyn* gyda chynifer a phedwar deg llysieuyn i'w drin. Nodwyd chwech deg wyth i'w defnyddio i wella'r *dyfrglwyf*. Disgrifir y clefyd hwn fel diffyg rhyddhau dŵr o'r corff. Nid yw *bysedd cochion* (*digitalis purpurea*) yn cael ei le i'r pwrpas hwn. Er hynny dyma'r dail a oedd fwyaf adnabyddus i annog troethlif. Yn ôl yr hanes bu i hen wraig gyfarwydd yn yr Amwythig ddatgelu ei gyfrinach i Doctor William Withering, meddyg o Birmingham ar ddiwedd y 18fed ganrif. Bu llawer o ddyfalu pam nad oedd yn effeithiol ym mhob achos o'r dyfrglwyf. Gyda gwell dealltwriaeth sylweddolwyd ei fod yn llwyddo mewn afiechyd y galon ond nid dyfrglwyf oedd yn codi o anhwylder yr iau neu'r arenau. Er hynny argymhellwyd hwy i drin graean neu garreg yn y bledren, aflwydd a flinodd llawer o'n henwogion, yn eu plith y Pêr Ganiedydd a Thomas Jones Dinbych.

Rhoddir amlygrwydd i glefydau benywod, yn arbennig anhwylderau'r clwyf misol. Mae dewis o wyth ar hugain llysieuyn i liniaru *gorfislif*, (*Plantago maritima*) *menorrhagia*, ac un ar hugain i gywiro diffyg mislif, *amenorrhoea*. Pwysleisir mai mewn achosion o ddiffyg hormonau y defnyddiwyd y llysiau hyn i geisio annog mislif. Mae Martha Jones yn rhybuddio yn erbyn defnyddio dau neu dri llysieuyn eraill am eu bod yn gallu peri erthylid. Ceir deuddeg o gynghorion i drin y *diferlif gwyn*, *lewcorrhea*. Mae'r term '*mammog*' yn amlwg yn y gwaith. Gall y term hwn fod



(*Plantago maritima*)

yn cael ei ddefnyddio am y groth neu am lysieuyn, y *feidiog Iwyd*, (*artemesia vulgaris*) ag iddo enw da i drin nifer o glefydau'r rhyw deg. Mae cynghorion at wella cur pen, peswch, crygni, diffyg anadl ac amrywiaeth o achosion o waedu.

Ni fyddai unrhyw drafodaeth yn gyflawn heb son am *glwyf y marchogion*, clwyf cyffredin pan oedd y ceffyl yn un o brif gyfryngau cludiant.

Prif achos marwolaethau ym Mhrydain yn y 19 ganrif a rhan gyntaf yr 20^{fe} oedd y *dicau*. Bu farw mab i Martha Jones ohono a

hanner peint o lefrith poeth bedwar bore 'n olynol a gollwng naw neu ddeg owns o waed o wythien. Ynadisgyn i ddwr oer bob bore am fis ac wedyn ddwywaith yn yr wythnos bymtheg mis.

Mae'r driniaeth hon yn adlewyrchu cyngor John Wesle at y clefyd yn ei *Brif Feddyginiaeth*, sef-

Bwriwch eich hun dros eich pen i ddwfr oer, bob dydd dros ugain niwrnod a chedwch tano gyhyd a bo bosibl.

Mae enw Lladin y clefyd, *hydrophobia*,



Martha Jones gyda Valmai Roberts ar ei glin

gresynai yn fawr nad oedd yn gwybod mewn pryd am rinwedd '*pelydr Ysbaen*' i drin y clefyd. Ysgrifennodd-

Mi wn iddo wneuthur lles nid bychan i fy mab dan y clwyf hwnnw, pe cawsai ef yn gynharach buasai yn ei iachau ond y clwyf a'i dygai i borth y bedd ac iddo y disgynnodd.

Mae yn y llawysgrif bedwar deg pump o lysiau nad ydynt yn yr un o ddeuddeg o lysieulyfrau a gymharwyd â hi. Er fod nifer o'r llysiâu yn cael yr un defnydd yn y mwyafrif ohonynt mae llawer mwy yn cael defnydd arbenigol gan unigolyn. Mae dewis o ddau blanhigyn i drin y *gynddaredd*, sef *llyriad y mor* (*plantago maritima*) neu *llysiâu 'r dryw* (*hepatica*). Roedd defod i'w dilyn-

Cymysgu llysiâu 'r dryw a phupur du a chymryd dram, sylwer, ohono mewn

wedi ei sefydlu drwy gam-dealltwriaeth, oherwydd nid ofn dwr yw ei nodwedd, yn hytrach methu llyncu dŵr oherwydd amhariad ar gyhyrau'r llwnc yw'r achos.

Nid digon gan yr awdures gofnodi meddyginiaethau i fodau dynol ond mae ganddi nifer o gynghorion i drin anifeiliaid, gwartheg, ceffylau, defaid a moch. Mae trin *clafr* ar ddefaid yn amlwg ac i geffylau mae meddyginiaeth i'r euon, (ysgyfeiwst).

Ceisiwyd rhoi cipolwg ar gynnwys y ddogfen hon mewn pwt o erthygl. Dichon y bydd cyfle i wneud mwy o gyfiawnder a'r trysor hwn yn y dyfodol. Nid oes unrhyw amheuaeth y byddai Martha Jones yn amenio geiriau'r Salmydd-

Y mae efe yn dyfrhau y bryniau o 'i ystafelloedd; y ddaear a ddigonir o ffrwyth dy weithredoedd. Y mae yn peri i'r gwellt dyfu i 'r anifeiliaid, a llysiâu i wasanaeth dyn.

*ATODIAD: Rhestr clefydau a nifer y
llyisiau i'w trin*

Anhunedd (3), anhwylderau'r llygaid (19), annwyd (2), calon guro (3), canser (2), carreg yn y bledren (17), chwysgyffur (16), clefyd melyn (40), clunwst (1), clwyf y marchogion (14), clwyfau (12), clymyn gwaedu (14), colic (11), crygni (4), cryndod (1), cur pen (17), cyfogllyn (4), cymalwst (8), defaid (3), diferlif gwyn (12), diffyg anadl (17), diffyg mislif (27), dolur gwddf(2), dolur rhydd (13), dyfrglwyf (68), eisglwyf(1),jfitiau (6), gorfislif(26), gravel (28), gwaedlif (25),

gwallgofrwydd (1), gwynt (19), haint arenau (1), hunllef(2), iselder ysbryd (6), llyngyr (19), man anhwylderau (20), man gyflyrau (29), parlys (8), peswch (25), pesychu gwaed (14), poenau misglwyf (2), rheumatic (15), rhwymedd (11), scrojrfula (5), siffilis (4), tan iddew (1), tostedd troethi (5), troethi gwaed (2), twymyn (5), y bendro (4),y ddannodd (2),y dicdu (7), y frech wen (2), y gosfa (2), y gynddaredd (2), y llechau (1),y pas (2), yr eryr (1), ysgyrfi (19)

*Dr Edward J Davies (Dr
Eddie) Cerrigydrudion*

*Nodyn golygyddol Prosiect Llên Natur: Cadwyd ffurf yr enwau Linneaid fel y bo yn y ffynhonnell a ddefnyddid yma (*Rhamant Bro* 2012 Rhifyn 31) gyda phrif-lythyren fach i'r enw generig yn hytrach na'r prif-lythren fawr safonol.

Cyhoeddwyd y fersiwn hon o'r ysgrif gyda chaniatad Golygydd Rhamant Bro, Archifdy Meirionnydd a Dr Edward Davies.